**SEWR-05-01 (min)**

# PWYLLGOR RHANBARTH Y DE-DDWYRAIN

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Gwener 2 Tachwedd |
| **Amser:** | 9.30am tan 12.45pm |
| **Lleoliad:** | Canolfan Hamdden Pen-y-bont ar Ogwr, Pen-y-bont ar Ogwr |

**Yn bresennol:**

*Aelodau:*

| | |
|---|---|
| Jonathan Morgan (Cadeirydd) | Canol De Cymru |
| Peter Black | Gorllewin De Cymru |
| Lorraine Barrett | Canol Caerdydd |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Jane Davidson | Pontypridd |
| David Davies | Mynwy |
| Geraint Davies | Rhondda |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| Michael German | Dwyrain De Cymru |
| Janice Gregory | Ogwr |
| John Griffiths | Dwyrain Casnewydd |
| Pauline Jarman | Canol De Cymru |

| | |
|---|---|
| Carwyn Jones | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Peter Law | Blaenau Gwent |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| David Melding | Canol De Cymru |
| Rhodri Morgan | Gorllewin Caerdydd |
| Jenny Randerson | Canol Caerdydd |
| Phil Williams | Dwyrain De Cymru |

*Yn bresennol:*

| | |
|---|---|
| Brian Gibbons AC | Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Andrew Powell-Chandler | Is-adran Polisi Gofal Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| Tony Garthwaite | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Rowena Miles | Awdurdod Iechyd Bro Taf |
| John Bolingbroke | University of the Third Age |
| Alan Sutherns | Association of Crossroads Care Attendant Scheme Ltd |
| Anne Higgins | Age Concern Cymru |
| Ana Palazona | Help the Aged Cymru |
| Sue Beck | Pensiynwyr Cymru |
| Glenys Dance | Cymdeithas Genedlaethol Pensiynwyr Cymru |

*Ysgrifenyddiaeth*

| | |
|---|---|
| Roger Chaffey | Clerc y Pwyllgor |
| Liz Wilkinson | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Sylwadau agoriadol**

Rhoddodd Carwyn Jones groeso ffurfiol i'r Pwyllgor i Ben-y-bont ar Ogwr. Estynnodd groeso i bawb oedd yn bresennol yn cynnwys aelodau o'r cyhoedd a chyflwynwyr. Dywedodd Carwyn Jones fod nifer y bobl oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn adlewyrchu lefel y diddordeb mewn datblygu strategaeth wedi ei hanelu at bobl hn.

Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn falch bod y pwyllgor yn cyfarfod yng Nghanolfan Hamdden Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer cyfarfod cyntaf tymor yr hydref. Rhoddodd groeso i Wyn Griffiths AS i'r cyfarfod. Diolchodd y Cadeirydd i staff y Ganolfan am eu cymorth ac am gael defnyddio'r cyfleusterau.

Dywedodd y Cadeirydd mai thema'r cyfarfod oedd cynigion ar gyfer Strategaeth y Cynulliad Cenedlaethol i Bobl Hn yng Nghymru. Dywedodd ei bod yn bwysig bod y Pwyllgorau Rhanbarth yn cyfrannu tuag at yr ymgynghoriad presennol, a fyddai'n cynorthwyo i ddatblygu polisïau a chynlluniau oedd yn adlewyrchu anghenion pobl hn.

**Eitem 1: Ymddiheuriadau am absenoldeb**

1. Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Rosemary Butler, Christine Chapman, Jocelyn Davies, Ron Davies, Sue Essex, William Graham, Brian Hancock, Jane Hutt, Huw Lewis, Lynne Neagle ac Owen John Thomas.

**Eitem 2: Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf: SEWR-04-01 (min)**

2. Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf.

**Eitem 3: Sesiwn drafod agored**

3.1 Codwyd y materion canlynol gan aelodau o'r cyhoedd:

- yr angen am wasanaeth eiriolaeth annibynnol ar gyfer pobl hn;
- dull mwy effeithiol ac effeithlon o asesu ar gyfer dynodi anghenion pobl hn a phobl oedrannus;
- yr angen am gyllid digonol i ganiatáu darparu gofal nyrsio am ddim;
- yr angen i ddarparu tai digonol ar gyfer pobl hn, gan gynnwys addasiadau a fyddai'n caniatáu i unigolion ddewis aros yn eu cartrefi eu hunain os oeddynt yn dymuno gwneud hynny;
- yr angen i fynd i'r afael â lefelau incwm isel pobl hn, yn enwedig y rhai oedd yn byw ar

bensiynau ymddeol y wladwriaeth;

- yr angen i ddiddymu taliadau sefydlog am ddarparu cyfleustodau i bobl hn;
- y meini prawf a ddefnyddir i ddiffinio pobl hn a goblygiadau posibl hynny o ran bod yn gymwys am fudd-daliadau lles;
- problem gwahaniaethu ar sail oedran a brofwyd gan bobl hn yn y gweithle;
- i ba raddau y byddai Strategaeth y Cynulliad Cenedlaethol i Bobl Hn yng Nghymru yn adlewyrchu'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol a fabwysiadwyd yn Lloegr.
- yr angen i annog pobl hn i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon gan gynnwys chwaraeon cystadleuol.
- yr angen i fynd i'r afael â'r ofn ymhlith pobl hn y bydd rhywrai yn troseddu yn eu herbyn a sicrhau bod yr heddlu yn cyfrannu tuag at ddatblygu a chyflwyno'r Strategaeth.

3.2 Mewn ymateb i'r uchod, gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol:

- Dywedodd y Dirprwy Weinidog fod y Cynulliad yn y broses o ddynodi ffyrdd o wella'r modd yr oedd cleifion yn gallu cael rhan yn y Gwasanaeth Iechyd ac yn cael eu cynrychioli ynddo. Dywedodd fod canllawiau newydd wedi cael eu rhyddhau ar ffurf siarter i gleifion. Yn ychwanegol at hynny, roedd gwasanaethau eiriolaeth annibynnol yn cael eu cyflwyno a fyddai yn ymdrin â phroblemau a phryderon cleifion.
- Cafwyd peth trafodaeth yngln â gallu cael addasiadau wedi eu gwneud i ganiatáu i bobl hn aros yn eu cartrefi ar ôl dod allan o'r ysbyty. Nododd y Pwyllgor y byddai rhagor o waith yn cael ei wneud i sicrhau ei bod yn haws cael mân addasiadau wedi eu gwneud. Teimlid bod prinder therapyddion galwedigaethol yn gwneud y broblem hon, oedd yn bodoli eisoes, yn waeth. Byddid yn darparu rhagor o arian yn y flwyddyn ariannol nesaf ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a Chynlluniau Gofal a Thrwsio a byddai hynny'n golygu bod posibl gwneud addasiadau ar gyfer rhagor o bobl. Yn ychwanegol at hynny, awgrymwyd y gallai fod angen system garlam i ddynodi achosion y mae angen blaenoriaeth arnynt gan ddefnyddio oedran fel y prif faen prawf cymhwyso.
- Dywedodd y Dirprwy Weinidog mai ar sail asesiad yr oedd gofal nyrsio a gofal personol am ddim yn cael ei ddyfarnu. Dywedodd mai'r bwriad oedd datblygu ffordd gyfannol o ymdrin â gofal nyrsio a fyddai'n cynnwys datblygu un dull asesu i gwmpasu holl anghenion cleifion. Dywedodd y Dirprwy Weinidog y byddai cynigion ar gyfer pecyn chwe wythnos o ofal personol am ddim i bobl oedrannus oedd newydd ddod allan o'r ysbyty ar gael erbyn mis Ebrill 2002. Er hynny, gallai cyflwyno gofal personol am ddim olygu canlyniadau arwyddocaol i awdurdodau lleol yr oedd gofyn iddynt dalu rhan o gostau gofal personol. Byddai'n bwysig gwneud dadansoddiad cost a budd a rhoi ystyriaeth i flaenoriaethau eraill oedd yn gysylltiedig â gofal iechyd i bobl hn.
- Nodwyd mai cyfrifoldeb awdurdodau lleol oedd cynnal a chadw ac atgyweirio tai. Roedd trosglwyddo'r stoc tai fel ffordd o fynd i'r afael â diffyg atgyweirio a chyflwr gwael mewn tai cymdeithasol yn cynnig dewis arall yn hytrach na dymchwel. I drosglwyddo'r stoc tai oddi wrth awdurdodau lleol i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig rhaid oedd cael cefnogaeth ar lefel leol ac roedd hynny'n cynnwys cael y tenantiaid i gymryd rhan lawn.
- Cytunai'r Pwyllgor y byddai hyrwyddo dysgu gydol oes yn cynorthwyo pobl hn i oresgyn

gwahaniaethu yn y gweithle. Roedd angen gwella'r cyfleoedd i bobl hn allu manteisio ar ddysgu a datblygu cyfleoedd i ailhyfforddi a dysgu sgiliau newydd os oedd angen. Yn ychwanegol at hynny, roedd yn bwysig codi ymwybyddiaeth ymhlith cyflogwyr yngln â manteision posibl cyflogi pobl hn. Teimlai'r aelodau y dylai cyfleoedd i weithio barhau i fod ar gael i bobl hn oedd yn dymuno dal i weithio y tu hwnt i oedran ymddeol. Byddai'r ffactorau hyn yn cynorthwyo i fynd i'r afael â diffyg gweithgarwch economaidd ymhlith oedolion dros 50 oed.

- Nodwyd y byddid yn cyflwyno sylwadau, lle y mae hynny'n briodol, i Lywodraeth y DU ar faterion nad ydynt wedi eu datganoli yn cynnwys budd-daliadau a chyflwyno deddfwriaeth i frwydro yn erbyn gwahaniaethu ar sail oedran.

**Eitem 4: Strategaeth i Bobl Hn yng Nghymru: Rhagarweiniad gan y Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

4.1 Rhoddodd y Cadeirydd groeso i Brian Gibbons, Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac Andrew Powell-Chandler (Is-adran Polisi Gofal Cymdeithasol).

4.2 Dywedodd y Dirprwy Weinidog y byddai'r strategaeth arfaethedig yn dynodi ffyrdd o gynorthwyo pobl hn yng Nghymru i fyw yn annibynnol a chydag urddas. Roedd y strategaeth yn anelu at fynd i'r afael â'r angen i gyflwyno gwasanaethau i bobl hn mewn modd amserol a phriodol.

4.3 Amlinellodd brif themâu'r strategaeth, sef iechyd a gofal cymdeithasol; hybu iechyd a byw'n iach; tai a gwasanaethau eraill llywodraeth leol; cynhwysiant cymdeithasol gan gynnwys gwahaniaethu ar sail oedran; trafnidiaeth, mynediad, symudedd a byw yn y wlad; dysgu gydol oes a chyflogaeth a materion nad ydynt wedi eu datganoli yn cynnwys troseddu, budd-daliadau a phensiynau.

4.4 Dywedodd y Dirprwy Weinidog y byddai'r strategaeth yn cael ei seilio ar dystiolaeth ac y byddai'n ymgorffori'r sylwadau gan bobl hn a gasglwyd yn ystod y broses ymgynghori helaeth. Byddai strategaeth ddrafft wedi ei chwblhau erbyn mis Mawrth 2002 a byddai'r strategaeth derfynol wedi ei chyhoeddi erbyn yr haf.

4.5 Dywedodd y byddai'r Strategaeth yn sicrhau bod y Cynulliad Cenedlaethol yn rhagweithiol yn y modd y mae'n cynllunio ar gyfer y newidiadau ym mhatrymau oedran poblogaeth Cymru. Yn ychwanegol at hynny, byddai'n mynd i'r afael ag anghenion a dymuniadau pobl hn yng Nghymru.

**Eitem 5: Strategaeth i Bobl Hn yng Nghymru: Safbwynt yr awdurdodau lleol**

5.1 Roedd Tony Garthwaite, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn croesawu cynigion y Cynulliad Cenedlaethol i greu

Strategaeth i Bobl Hn yng Nghymru. Dywedodd fod datblygu'r Strategaeth yn rhoi cyfle i awdurdodau lleol ganolbwyntio ar anghenion pobl hn. Pwysleisiodd yr angen i fabwysiadu dull partneriaeth er mwyn cynorthwyo i gyflwyno'r strategaeth yn effeithiol.

5.2 Pwysleisiodd Tony Garthwaite bwysigrwydd mynd i'r afael ag iechyd a gofal cymdeithasol fel un sector. Yn ychwanegol at hynny, roedd yn hanfodol cydnabod rôl ac effaith tai ar iechyd a lles unigolion, yn enwedig pobl hn a'r henoed. Dywedodd fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn darparu ystod eang o wasanaethau, oedd yn anelu at gynyddu'r dewisiadau ffordd-o-fyw i bobl hn.

5.3 Dywedodd Tony Garthwaite y byddai angen cyllid digonol i ddarparu gofal effeithiol yn y gymuned. Oni bai fod cyllid o'r fath ar gael, byddai gofal adferol ac ataliol yn dioddef.

5.4 Dywedodd Tony Garthwaite y byddai'n bwysig bod y Strategaeth yn mynd i'r afael â'r angen i sicrhau newid cadarnhaol mewn agweddau tuag at heneiddio a phobl hn. Teimlai y byddai angen i awdurdodau ddatblygu strategaethau lleol fel y gellid mynd i'r afael ag anghenion ar lefel leol. Yn ychwanegol at hynny, mae'n rhaid i'r Strategaeth newid y pwyslais ym maes gofal oddi wrth sefydliadau a thuag at fesurau ataliol.

**Eitem 6: Strategaeth i Bobl Hn yng Nghymru: Safbwynt yr awdurdodau iechyd**

6.1 Dywedodd Rowena Miles fod Awdurdod Iechyd Bro Taf wedi ymrwymo i leihau'r anghydraddoldebau iechyd ymhlith pobl hn ac y byddai dull rhyngasiantaethol, oedd yn cynnwys y sectorau statudol, gwirfoddol ac annibynnol, yn cynorthwyo i gyflawni'r bwriad hwn.

6.2 Tynnodd sylw at nifer o ffactorau sy'n effeithio ar iechyd sy'n arbennig o berthnasol i bobl hn:

- yr angen i dimau gofal iechyd sylfaenol, mewn partneriaeth â gweithwyr allweddol eraill, fynd i'r afael ag anghenion hybu iechyd i bobl hn. Gallai mabwysiadu ffordd iach o fyw ohirio'r adeg pan fyddai rhywun yn mynd yn anabl neu o bosibl ei dileu yn llwyr.
- pwysigrwydd ffactorau amgylcheddol, yn enwedig tai, mewn atal afiechyd. Roedd deg y cant o'r tai yn ardal Bro Taf wedi cael eu dosbarthu fel rhai anaddas. Roedd hyn yn debygol o gael effaith niweidiol ar bobl hn oedd yn fwy tebygol o dreulio amser gartref.
- roedd parhau i fod yn symudol yn elfen hanfodol mewn hybu annibyniaeth, gan atal anabledd a hyrwyddo iechyd da. Mae'r gwasanaeth iechyd ar y cyd ag asiantaethau allweddol eraill yn chwarae rhan hanfodol mewn annog gweithgaredd, dynodi'r unigolion hynny sydd mewn perygl o fethu â symud a datblygu gwasanaethau adferol.

6.3 Dywedodd Rowena Miles fod y problemau iechyd meddwl ymhlith pobl hn yn her sylweddol i'r asiantaethau statudol. Dywedodd fod diagnosis cynnar yn hanfodol ar gyfer camu i mewn a rhoi triniaeth briodol. Yn ychwanegol at hynny, roedd angen dull integredig o gefnogi

unigolion a’u gofalwyr.

6.4 Pwysleisiodd Rowena Miles rôl y sector annibynnol mewn darparu gofal a llety tymor hir i lawer o bobl hn. Dywedodd fod cyflwyno gofal nyrsio am ddim yn rhoi cyfle i weithio mwy drwy'r dull amlddisgyblaethol integredig er mwyn gwneud pobl mor annibynnol â phosibl a lleihau effeithiau negyddol byw mewn sefydliad.

5. Roedd yna ychydig o drafodaeth ynghlyn a'r angen am fwy o ddarpariaeth ofal lliniarol.

**Eitem 7: Strategaeth i Bobl Hn yng Nghymru: Safbwynt y sector gwirfoddol**

7.1 Gwahoddodd y Cadeirydd John Bolingbroke (University of the Third Age), Alan Suthern (Association of Crossroads Care Attendant Scheme Ltd), Anne Higgins (Age Concern Cymru), Ana Palazon (Help the Aged Cymru), Sue Beck (Pensiynwyr Cymru) a Glenys Dance (Cymdeithas Genedlaethol Pensiynwyr Cymru) i roi eu cyflwyniadau.

7.2 Croesawai John Bolingbroke y strategaeth arfaethedig, yn enwedig y symudiad i hyrwyddo byw yn annibynnol, gwneud y gorau o botensial a rhoi cymaint o ran â phosibl i bobl hn. Dywedodd fod yr University of the Third Age (U3A) yn hybu ymddeoliad gweithgar ac agwedd gadarnhaol tuag at ddysgu er mwyn pleser ymhlith pobl hn. Roedd y manteision o ddysgu yn cynnwys rhagor o ymarfer deallusol a chorfforol yn ogystal â gweithgaredd cymdeithasol a gâi ei greu mewn amgylchedd anffurfiol a chyfeillgar. Gall y rhain gynorthwyo i frwydro yn erbyn diflastod ac unigrwydd yn hwyr mewn bywyd.

7.3 Dywedodd John Bolingbroke fod poblogrwydd cynyddol yr U3A yn dangos ei lwyddiant a bod yr aelodaeth wedi codi o 10,000 ym 1990 i 120,000 yn 2001.

7.4 Roedd yr U3A yn cefnogi barn y Cynulliad Cenedlaethol y gellir gwella llawer ar ansawdd bywyd i bobl hn drwy hyrwyddo a chefnogi ffordd o fyw weithgar ar ôl ymddeol. Dywedodd ei bod yn hanfodol bod y strategaeth yn annog ac yn galluogi pobl hn i greu cyfleon iddynt eu hunain ddysgu gydol oes; darparu ysgogiad ac adnoddau i awdurdodau lleol i alluogi grwpiau fel yr U3A i weithredu; sicrhau bod llyfrgelloedd ac amgueddfeydd yn ffynonellau deunydd addysgol hygyrch; sicrhau bod sefydliadau addysg yn parhau i gynnig gwybodaeth arbenigol ac arbenigedd fel bod posibl gwella ansawdd ac amrediad y cyrsiau a gynigir i bobl hn yn barhaus; a dal i ymgynghori â phobl hn yngln â darparu dysgu gydol oes yn y dyfodol.

7.5 Dywedodd Alan Sutherns fod yr Association of Crossroads Care Attendant Scheme Ltd (y Gymdeithas) yn rhedeg dros 200 o gynlluniau drwy Gymru a Lloegr gan ddarparu 4 miliwn o oriau gofal i roi seibiannau i dros 28,000 o ofalwyr. Dywedodd fod y rhan fwyaf o’r gofalwyr, yn unol â thueddiadau demograffig, dros 60 oed eu hunain.

7.6 Dywedodd Alan Sutherns fod yn rhaid i’r strategaeth arfaethedig gymryd y polisïau a’r ddeddfwriaeth bresennol yngln â darparu gofal i bobl hn i ystyriaeth ac y dylai’r rheiny roi sylw priodol i waith y Gymdeithas. Er enghraifft, gall polisïau rhyddhau pobl o ysbytai gynyddu’r galwadau ar ofalwyr; gall hawliau gofalwyr i gael eu hasesu eu hunain arwain at gynnydd mewn costau gweinyddol ac achosi anawsterau wrth gynllunio ymlaen; gall lleihau’r nifer o leoedd mewn cartrefi nyrsio preswyl annog pobl oedrannus i barhau i ddibynnu ar eu teulu am amser hirach.

7.7 Roedd Alan Sutherns yn croesawu’r ffaith bod Cyngor Gofal Cymru yn cael ei sefydlu a dywedodd y byddai’n creu cyfleoedd a sialensiau fel ei gilydd i’r sector gofal. Dywedodd fod y Gymdeithas yn cynnig gwasanaeth o safon uchel a ddarperid gan staff medrus ac ymroddedig. Er hynny, byddai angen mynd i’r afael â’r cynnydd mewn costau er mwyn cyflawni'r gofynion i hyfforddi staff yn ffurfiol.

7.8 Amlinellodd Anne Higgins nodweddion y Lwfans Gweini, y meini prawf cymhwyster a’r drefn hawlio. Dywedodd ei fod yn fudd-dâl lles oedd ar gael i bobl sâl neu anabl dros 65 oed yr oedd angen cymorth arnynt am gyfnod o chwe mis o leiaf. Roedd Lwfans Gweini yn fudd-dâl anghyfrannol nad oedd yn dibynnu ar incwm, nad oedd prawf modd arno ac nad oedd yn drethadwy.

7.9 Pwysleisiodd Anne Higgins yr anawsterau a wynebid gan hen bobl wrth iddynt wneud cais am Lwfans Gweini. Nododd bryder, yn enwedig, am y ffurflen hawlio hir a’r dystiolaeth fanwl yr oedd gofyn amdani.

7.10 Dywedodd fod Age Concern, ynghyd â sefydliadau gwirfoddol eraill, yn cynnig cymorth priodol, annibynnol i unigolion yr oedd angen cymorth arnynt i wneud cais am fudd-daliadau. Er hynny, roedd yn hanfodol bod cyllid digonol yn cael ei ddarparu i sefydliadau gwirfoddol er mwyn i’r gwasanaethau hyn fedru ateb y galw cynyddol.

7.11 Dywedodd Anne Higgins fod y rhai sy'n gwneud ceisiadau llwyddiannus yn aml yn gweld cynnydd dramatig yn eu hincwm oedd yn eu galluogi i wella ansawdd eu bywyd. Dywedodd mai rhan hanfodol o’r Strategaeth fyddai sicrhau bod cymaint â phosibl o bobl hn yn cael y budd-daliadau yr oedd ganddynt hawl i’w cael a bod hynny’n cael ei symleiddio.

7.12 Dywedodd Ana Palazon fod y prif broblemau oedd yn wynebu pobl hn yn cynnwys mynediad corfforol ac ariannol at wasanaethau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Teimlid bod lefelau incwm isel ymhlith pobl hn yn aml yn arwain at unigrwydd cymdeithasol eithafol a cholli cysylltiad teuluol. Dywedodd y gallai cael teithio ar fysiau am ddim helpu i liniaru'r broblem hon. Yn ychwanegol at hynny, roedd amodau tai gwael a thlodi yn nhermau ynni yn aml yn deillio o lefelau incwm isel. Teimlid y byddai angen cynnydd yn lefel y pensiwn ymddeol yn y tymor hir i fynd i’r afael â’r problemau sylfaenol oedd yn wynebu pobl hn.

7.13 Dywedodd Ana Palazon y byddid yn llwyddo i hybu tyfu’n hn mewn ffordd iach a gweithgar drwy fuddsoddi mewn dysgu gydol oes, gan gynnwys hyfforddiant a chefnogaeth i bobl hn oedd yn dechrau gweithio’n hunangyflogedig.

7.14 Pwysleisiodd yr angen i’r Strategaeth fabwysiadu dull cyfannol tuag at ofalu am bobl hn yn y tymor hir. Roedd hynny’n cynnwys integreiddio gofal personol a gofal nyrsio a dileu taliadau am ofal personol.

7.15 Dywedodd Ana Palazon fod y sector gwirfoddol ar hyn o bryd yn chwarae rhan ganolog mewn cefnogi pobl hn. Er hynny, cyn y gellid gwella'r systemau cefnogi presennol a gynigid gan sefydliadau gwirfoddol byddai'n rhaid wrth gyllid ychwanegol.

7.16 Dywedodd Sue Beck fod Pensiynwyr Cymru yn darparu llais torfol ar gyfer pensiynwyr yng Nghymru. Dywedodd ei bod yn bwysig bod pobl yn siarad â hwy er mwyn mynegi eu pryderon a rhannu’r problemau y maent yn eu hwynebu. Roedd Pensiynwyr Cymru yn darparu peirianwaith er mwyn i unigolion gyflwyno sylwadau yngln â’u hanghenion i lywodraeth leol a llywodraeth ganol fel ei gilydd.

7.17 Tynnodd Sue Beck sylw at bwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth er mwyn mynd i’r afael ag anghenion pobl hn yng Nghymru. Dywedodd y byddai’n hanfodol i’r sefydliadau gwirfoddol a statudol weithio ar y cyd â grwpiau llai i gyrraedd nod cyffredin.

7.18 Mynegodd Glenys Dance ofid yngln â’r diffyg gwasanaethau cefnogi oedd ar gael i bobl hn. Yn benodol, nododd fod gorfod disgwyl am amser annerbyniol o hir cyn cael trefniant i weld meddyg a chau meddygfeydd ‘pentref’ bach yn niweidiol i iechyd pobl hn. Roedd sefydlu Canolfannau Iechyd mawr canoledig yn achosi problemau mynediad sylweddol i lawer o gleifion hn. Awgrymwyd bod meddygfeydd symudol ar gyfer cleifion hn ac anabl yn cynnig dewis arall addas ac y byddent yn hwyluso mynediad cyflym at ofal iechyd sylfaenol.

7.19 Codwyd y pwyntiau canlynol yn y drafodaeth:

- Cytunai’r Pwyllgor fod yn rhaid i bobl hn gael y dewis o gadw eu hannibyniaeth ac aros yn eu cartrefi eu hunain tra’n derbyn cefnogaeth a gofal addas.
- Cafwyd peth trafodaeth ar y Ddeddf Safonau Gofal (y Ddeddf) a fyddai’n diwygio’r system reoleiddio ar gyfer gwasanaethau gofal yng Nghymru. Mynegwyd pryder y gallai’r Ddeddf gael effaith niweidiol ar gartrefi gofal preswyl yn y sectorau statudol ac annibynnol fel ei gilydd. Yn benodol, gallai gostyngiad yn nifer y lleoedd mewn cartrefi nyrsio achosi oedi cyn rhyddhau pobl o’r ysbyty a byddai hynny’n cynyddu’r pwysau ar y Gwasanaeth Iechyd. Teimlid y dylid rhoi cydnabyddiaeth i’r sector annibynnol oedd yn chwarae rhan hanfodol yn y system gofal. Amlinellodd y Dirprwy Weinidog y dull cam wrth gam a fyddai’n cael ei ddefnyddio i roi’r rheoliadau newydd oedd yn y Ddeddf ar waith.

- Teimlai’r Pwyllgor ei bod yn bwysig bod y Strategaeth yn mynd i’r afael â mater tlodi ymhlith pobl hn yng Nghymru. Teimlai’r Aelodau fod angen cydbwysedd rhwng budd-daliadau cyffredinol a budd-daliadau â phrawf modd arnynt. Er hynny, cytunid y byddai angen i’r Strategaeth ddynodi ffyrdd o gynyddu nifer y rhai oedd yn manteisio ar fudd-daliadau er mwyn cynorthwyo pobl hn i wella eu hincwm.
- Cafwyd peth trafodaeth yngln â chyflwyno teithio am ddim ar fysiau lleol i bobl dros 60 oed. Teimlai’r Aelodau y byddai rhoi cyhoeddusrwydd eang i’r ymgyrch hon yn hanfodol er mwyn sicrhau bod cymaint â phosibl yn manteisio ar y ddarpariaeth. Nodwyd y byddai’r ymgyrch yn caniatáu teithio am ddim rhwng awdurdodau ar fysiau cyhoeddus. Er hynny, nid yw'r bysiau cymunedol a ddefnyddir gan lawer o bobl hn yn cael eu cynnwys yn y cynllun tocynnau gostyngol.
- Roedd gan Grwpiau Iechyd Lleol rol cynyddol mewn comisiynu gofal iechyd a gofal cymdeithasol sy'n gysylltiedig a iechyd. Roedd ganddynt arweiniaeth mewn cyd-weithio ar draws sectorau ac roedd yn bwysig bod y grwpiau yn barhau i adeiladu fframweithiau cymorth ac yn gweithio'n agos ag adrannau cymorth cymdeithasol yr awdurdodau lleol.
- Cafwyd peth trafodaeth ar leoliad a maint meddygfeydd a chyflwr gwael tu mewn rhai meddygfeydd hn. Fel contractwyr hunangyflogedig, meddygon i raddau helaeth oedd yn gyfrifol am benderfynu ar leoliad meddygfeydd. Cytunid yn gyffredinol fod meddygfeydd canolog cymharol fawr yn cynnig ystod ehangach o wasanaethau. Er hynny, roedd agwedd bersonol y gofal a pharhad yn aml yn cael eu hystyried yn flaenoriaeth gan bobl hn. Nodwyd y byddai cyllid yn cael ei ddarparu ar gyfer diweddaru adeiladau meddygon.

7.20 Diolchodd y Cadeirydd i’r Dirprwy Weinidog a’r cynrychiolwyr o’r awdurdod lleol, yr awdurdod iechyd a’r sefydliadau gwirfoddol am eu cyflwyniadau ac am ateb cwestiynau’r Aelodau.

**Eitem 8: Dyddiad y cyfarfod nesaf: 7 Rhagfyr 2001**

8.1 Dywedodd y Cadeirydd y byddai’r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal yng Ngholeg Trydyddol Gwent, Brynbuga ac y byddai’n canolbwyntio ar Adolygiad y Pwyllgor Diwylliant o’r Iaith Gymraeg.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Tachwedd 2001**